# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 13/01/2026

Presennol: Heulwen Parry, Eirian Hoyle , Rebecca Phasey, Gareth Jones, Elfed Roberts, Eurwyn Jones

1. Ymddiheuriadau: Francesca Williams, Meredydd Williams

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir: EH, GJ

2a. Datgan Diddordeb: Heulwen Parry i pwynt 3.692

Croesawyd Geraint Jones o Gyngor Gwynedd i roi adroddiad ar y sefyllfa bysus. Er i'r cyngor cymuned godi sawl pryder ynglŷn a'r sefyllfa yn Maentwrog does dim dylanwad gan Cyngor Gwynedd i newid y sefyllfa. Cynngioedd GJ, EJ bod hysbysiad yn cael ei roi ar y lloches yn egluro nad yw'r bws yn stopio yno, hefyd i barhau ar y posibilrwydd o roi rhywbeth yn ei le i roi rhybydd i'r dreifar bws bod rhywin yn aros yno.

Croesawyd Geraint Lewis i'r cyfarfod i drafod y cylluniau ar gyfer addasu y lle parcio yn y fynwent. Gofynnwyd iddo anfon infois am y gwaith sydd wedi ei wneud hyd hyn. Eglurwyd bod angen dau ddyfynbris ychwanegol gan benseiri eraill cyn gall y cyngor ddod i benderfyniad. Clerc i gysylltu a Vaughan Heaney ac Dobson Owen i ofyn os oes posib iddynt roi dyfynbris am y gwaith.

<u>3. Materion yn codi o'r cofnodion</u>

3.686 Clerc i ail-gysylltu unwaith eto gyda Steffan Jones i ofyn am adroddiad o'r cyfarfod yn mis Tachwedd.

3.687 Tir ger Gors Fach / Coed Gors Fach – ER wedi cyfarfod a Grŵp Cynefin, nid oes adroddiad wedi ei dderbyn hyd yma.

3.688 'Sovereign' – taliad wedi ei anfon iddynt, disgwyl adroddiad yn ôl.

3.689 Van wedi ei barcio wrth yr hên bost - ymateb wedi ei dderbyn gan Stephen Hughes – Prif Weithredwr Swyddfa Comisynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

*Rwyf wedi cael cyngor gan Heddlu Gogledd Cymru bod y materion a godwyd gennych chi orau'n cael eu delio gan eich awdurdod lleol. Mae gwybodaeth bellach ynghylch parcio cerbydau ar gael ar wefan Heddlu Gogledd Cymru -<u>Materion parcio a cherbydau wedi'u gadael | Heddlu Gogledd Cymru</u>.*

3.690 Sedd wag – dim diddordeb wedi ei ddangos, cadw mlaen.

3.691 Arwyddion Gellilydan – ymateb wedi ei dderbyn gan Iwan ap Trefor:

*Hoffwn nodi bod swyddog o'r gwasanaeth hwn wedi cynnal arolwg o'r sefyllfa.*

*Yn dilyn y sylwadau rydym wedi derbyn yn ôl gan yr technegydd;-*

*" Yn dilyn yr arolwg, nodwyd bod nifer o ffyrdd yn yr ardal yn gul iawn, sy'n creu cyfyngiad naturiol ar gyflymder cerbydau. Mewn lonydd o'r fath, nid yw'r Cyngor yn cyflwyno arwyddion*



HP 3/03/26

*rhybuddio o gerddwyr yn y ffordd. Fodd bynnag, mae'r brif ffordd rhwng Maentwrog a Gellilydan yn sefyllfa wahanol. Oherwydd natur y ffordd, mae'r potensial am wrthdaro yn sylweddol uwch. Felly, os bydd nifer o bobl yn cerdded ar y rhan o'r ffordd sydd wedi'i nodi mewn glas, byddai'n rhesymol gosod arwyddion i rybuddio gyrwyr."*

*Gobeithio bod yr uchod o fudd i chwi.*

3.692 Cae chwarae Maentwrog – Gofyn wrth Owain Aeron am bris o osod polion o'r coed lawr at y giât, ac hefyd gosod polyn tynnu a giat 7 'bar' newydd.

3.693 Hen Bôst, Gellilydan – ER am gysylltu a Thîm Tacluso Bro, cadw mlaen.

3.694 Gelli Dywyll – Elfed Roberts am ail-gysylltu, disgwyl ymateb.

3.695 – Torri coed – Gofeb – Meredydd Williams am gysylltu a Ben o Hoschief, cadw mlaen.

3.696 Pen y Bont (ar gyffordd y ffordd mewn i'r pentref) gordyfiant wedi chwalu y ffens. ER am drafod gyda Adrian Williams.

3.697 Llwybrau – ebost wedi ei dderbyn gan Angharad Owen yn codi pryder gyda llwybrau Plas Tan y Bwlch - ER wedi cysylltu gyda'r Parc ac Gwyn Evans o Cyngor Gwynedd. Ymateb wedi ei dderbyn nôl gan y Parc:

*Diolch am flaenyrru'r ebost isod atom. Gallaf gadarnhau bod y tim Wardeinio wedi derbyn ebost yn uniongyrchol gan Ms Owen hefyd a bod Uwch Warden y Gogledd yn ymateb mewn ebost ar wahan.*

*Mae'r llwybrau ym Mhlas Tan y Bwlch yn lwybrau trwy ganiatad. Mae hynny'n golygu nad ydynt yn Hawliau Tramwy Cyhoeddus, i'w cynnal gan yr Awdurdod Priffyrdd. Fodd bynnag, mae'r llwybrau yn agwedd bwysig o'r ffordd mae'r cyhoedd yn ymwneud a'r Plas ac rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda phenseiri tirweddol (fel rhan o'r prosiect ehangach i ddatblygu Plas Tan y Bwlch). Bydd eu gwaith yn cynnwys sicrhau bod y llwybrau yn cael eu hail sefydlu a'u hadfer i'w cyflwr da blaenorol.*

*Yn y cyfamser, byddwn yn arolygu'r llwybrau, i weld os oes modd eu hailagor i'r cyhoedd.*

*Cynhaliwyd diwrnod gwirfoddoli i staff Awdurdod y Parc ym Mhlas Tan y Bwlch yn ddiweddar, i drin y gerddi, gan gynnwys rhywfaint o'r llystyfiant sy'n amharu ar y llwybrau. Y gobaith yw trefnu rhagor o'r dyddiau hyn yn 2026.*

<u>4.Materion i'w Trafod:</u>

4.294 Bryn Arms – HP wedi cysylltu a Rhydian Roberts o Gyngor Gwynedd ynglŷn a'r gwaith sydd yn cael ei wneud yno, Mae am ymweld a'r safle ac adrodd yn ôl i'r Cyngor

4.295 Cae Chwarae Maentwrog – cangen wedi disgyn, GJ am gael golwg.

4.296 Blwch Pôst gyferbyn a Tanws Maentwrog – ER am gysylltu ac Adrian Williams o Gyngor Gwynedd.

4.297 Gordyfiant Nant y March – HP wedi anfon lluniau i'r clerc iw hafnon ymlaen at sylw Adrian Williams.

HP 03/03/26

4.298 Adroddiad yn dilyn cyfarfod ardal Maenwrog a Gellilydan, Elfed Roberts ac Adrian Williams ym bresennol.

Ymateb Adrian Williams wedi ei danlinellu.

1 Beth i'w wneud ynglŷn a llinellau Melyn yn Maentwrog: **Bydd rhaid rhoi cais i Tim Traffig yn Caernarfon ar gyfer ymestyn Cyfyngiad Gwaharddiad Aros oherwydd fydd angen dilyn y broses gyfreithiol.**

2 beth sydd yn digwydd ynglŷn ar tir lithriad wrth y junction am Gellilydan: Mae gwaith yma ar rhaglen Tim Strwythurau.

3 Y bwlch yn y wal wrth adael y junction a mynd fynnu am Gellilydan ( draws Ffor i Fron Goch) Mae trafodaeth yn parhau gyda SP Power a BT mewn perthynas cael cytundeb. **Ar hyn o bryd mae anodd derbyn cadarnhad gan BT ar gyfer symud ei cyfarpar a bydd SP Power angen wyth wythnos o rhybudd. Mae trafodaethau yn parhau gyda ein Tim Strwythurau.**

4 Cael arwyddion i nadu Loris ddod o Cilfor am Maentwrog a Maentwrog i Cilfor: : **Bydd rhaid rhoi cais i Tim Traffig yn Caernarfon i'w ystyried.**

5 Gor dyfiant ar gwrych yn Nant y March: Mae'r tyfiant o dir preifat. **Mae ein Arolygwr wedi cael trafodaeth gyda'r tirfeddiannwr sydd wedi cytuno ar lafar i weithredu. Serch hynny, mae llythyr hefyd wedi ei anfon a nawr bydd angen cyflwyno Rhybudd neu fydd y Cyngor cario allan y gwaith ac adennill unrhyw gostau.**

6 Mynediad cerddwyr o Gellilydan am Penyglanau-Arwyddion diogelwch? **Bydd rhaid rhoi cais i Tim Traffig yn Caernarfon i'w ystyried**

7 Cyflwr y coed o maes Carafanau am Pen y Glanau: **Bydd ein Arolygwr asesu'r coed ac petai angen byddwn anfon llythyr at y perchennog.**

8 Hefyd mae cyflwr y ffordd wrth ddod allan o Gellilydanyn wael( 20 llath ar ol y tro sharp am Maentwrog): **Bydd ein Peirianwyr yn asesu cyflwr y ffordd yn fuan.**

5. Ariannol

5.227 Cyfrif Cadw: £229.88

5.228 Cyfrif Cyfredol: £6664.11

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.229 Gwe Cambrian - £131.99

5.230 Soverign - £238.80

5.231 Snowdonia Design - £114.00

5.232 Praesept – Cytunwyd i'w godi 5% am y flwyddyn 2026-2027.

6. Cynllunio

HP 3/03/26

Dim gwrthwynebiad i'r cais canlynol:

6.773 NP5/73/L184A – Gelli Dywyll, Cwm Cynfal – Dymchwel annedd sefydledig a penty a codi annedd deulawr newydd a gosod tanc septig.

6.774 NP5/73/LB27S – Gwesty'r Grapes – Newid defnydd o dir i ffurfio maes parcio ychwanegol.

6.775 NP5/73/287V – Safle Dadgomisiynu Trawsfynydd – gosod ceblau tanddaearol newydd,

7. Gohebiaeth

293 Un Llais – Hyfforddiant

294 Cyngor Gwynedd – rhybydd cau ffordd

295 Sian Gwnllian – Sefydlu ysgol deintyddol

296 Archwiliad Cymru - Cwbwlhau Archwiliad

297 Un Llais – Cofnodion Pwyllgor Ardal Meirionydd

298 Parc Cenedlaethol Eryri – Ail ddatblygu safle Canolfan Ymwelwyr, Atomfa Trawsfynydd

299 National Grid – newyddion diweddaraf

8. Adroddiad o Gyfarfodydd eraill

8.35 Grŵp Rhanddeilliaid Safle Trawsfynydd – Siomedig iawn bod y cwmni Egino yn cael eu stopio.

8.36 Llywodraethwyr yr Ysgol – Estyn yn ymweld a'r ysgolion yn yr wythnos nesaf – adroddiad i ddilyn.

9. Mynwent Dwyryd

9.87 Cyfrif y Fynwent: £21880.44

Cytunwyd i dalu y canlynol:

9.88 Martin Kerr - £480.00

9.89 Mynwent Dwyryd: ER wedi bod mewn cysylltiad a Mrs Rix, penderfynwyd ail ysgrifennu atynt i egluro yn union beth yw bwriad y cyngor, hefyd ER am ymweld a perchnogion y ddau fwthyn sydd ar dîr yr Hen Rheithordy i roi esboniad hefyd.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf

Mawrth 3ydd 2026 am 6.30 o'r gloch, Neuadd y Pentref, Gellilydan.

10. Neuadd y Pentref, Gellilydan

Trafodaeth i ddilyn cyfarfod y cyngor gyda'r ymddiriedolwyr.